

Tâl Salwch Statudol (SSP) a chais cyflogai am fudd-dal

Os ydych yn gyflogwr

Mae'n rhaid i chi gwblhau'r ffurflen hon pan nad oes hawl gan gyflogai i gael Tâl Salwch Statudol (SSP), neu pan fydd SSP cyflogai wedi dod i ben neu ar fin dod i ben.

Bydd y wybodaeth a roddir gennych yn helpu'r Ganolfan Byd Gwaith i benderfynu ar gais cyflogai am fudd-dal.

Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen hon, rhaid i chi ei rhoi i'r cyflogai. Yna gallant wneud cais am fudd-dal.

I gael mwy o wybodaeth am SSP ewch i www.gov.uk/employers-maternity-pay-leave

Neu gallwch ffonio llinell gymorth Cyflogwyr Cyllid a Thollau EM ar **0300 200 3200**.

Ein gwasanaethau

Mae gan y Ganolfan Byd Gwaith amrywiaeth o wasanaethau a mentrau recriwtio y gallai eich helpu i adeiladu eich gweithlu. Mae'r gwasanaethau hyn yn amrywio o gymhellion i'ch helpu a'ch annog i ddenu grŵp amrywiol o bobl, i gefnogaeth a chyingor recriwtio.

Cewch mwy o wybodaeth am y gwasanaethau hyn yn www.gov.uk/jobcentre-plus-help-for-recruiters/overview

Os mai chi yw'r cyflogai

Rhoddodd eich cyflogwr y ffurflen hon i chi gan na allwch gael SSP, neu gan fod eich SSP yn dod i ben. Gallwch weld y rheswm dros hyn yn **Rhan B**.

Os byddwch yn anghytuno â phenderfyniad eich cyflogwr dros beidio â thalu SSP i chi, gofynnwch i'ch cyflogwr egluro hynny i chi. Unwaith rydych wedi siarad â'ch cyflogwr, os ydych dal yn ansicr ynglŷn â'r penderfyniad hwn, gweler isod.

Am ragor o wybodaeth am y Tâl Salwch Statudol

I gael gweld os ydych yn gallu cael Tâl Salwch Statudol, ewch i www.gov.uk/statutory-sick-pay

Gofynnwch i'ch cyflogwr am reswm os credwch

- bod ei benderfyniad i beidio â thalu SSP yn anghywir
- nad ydych yn cael y swm cywir o SSP.

Os ydych yn dal yn anghytuno, gallwch ffonio'r llinell gymorth cyflogaion Cyllid a Thollau EM ar **0300 200 3500** am gyngor.

Beth i'w wneud nawr

Os ydych i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch neu anabledd, gallwch wneud cais am fudd-dal o'r Ganolfan Byd Gwaith.

Efallai y gallwch gael arian a chymorth

- i'ch helpu i ddychwelyd i'r gwaith, neu
- os na allwch weithio yn yr hirdymor.

Darllenwch y nodiadau ar **dudalen 2** i gael rhagor o wybodaeth.

Nid cais am fudd dal yw'r ffurflen hon. Mae'n rhaid i'ch cyflogwr gwblhau'r ffurflen hon i gefnogi eich cais.

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith
a Phensiynau

SSP1W 05/15

Sut i wneud cais

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith ar **0800 012 18 88**.

Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **0800 023 48 88**.

I gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau

I gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau gallwch edrych ar ein gwefan yn www.gov.uk/browse/benefits

Sut mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, gallwn ddefnyddio'r wybodaeth ar gyfer unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys delio gyda:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- gwaith a hyfforddiant
- cynllunio ariannol ar gyfer ymddeoliad
- cynlluniau pensiwn galwedigaethol a phersonol.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill am unrhyw un o'n dibenion os yw'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Efallai y byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau penodol eraill os yw'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny.

I gael mwy o wybodaeth am y ffordd rydym yn defnyddio gwybodaeth, ymelwch â'n gwefan www.gov.uk/dwp/personal-information-charter neu gysylltu ag unrhyw un o'n swyddfeydd.

Rhan A: Eich cyflogai

Cyfenw neu enw teuluol

Enwau eraill

Cyfeiriad

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)

Llythrennau Rhifau Llythyren

Rhif cloc, cyflogres neu gyflogai

Rhif cyfeirnod treth

Gelwir hwn yn Gyfeirnod TWE cyflogwr hefyd.

Rhan B: Pam na allwch gael Tâl Salwch Statudol (SSP)

Rwy'n cwblhau'r ffurflen hon oherwydd

Ni allaf dalu SSP i chi ar neu ar ôl

 /

Rwyf wedi ticio'r blychau isod i ddweud wrthyf pam na allwch gael SSP.
Bydd **Rhan D** yn egluro'r rhesymau yn fanylach.

Ni allaf dalu SSP i chi oherwydd

- A Gallwch wneud cais am fudd-dal nawdd cymdeithasol eto yr oeddech yn ei hawlio o'r blaen oherwydd salwch neu anabledd.
- B Mae eich contract cyflogaeth am gyfnod sefydlog wedi dod i ben.
- C Daeth eich contract cyflogaeth i ben.
- CH Byddwch wedi bod yn cael SSP am 28 wythnos yn fuan neu rydych wedi bod yn cael SSP am 28 wythnos.
- D Nid oedd eich enillion ar gyfartaledd cyn eich salwch neu'ch anabledd yn ddigon uchel.
- DD Rydych yn disgwyl baban yn fuan neu rydych newydd gael baban.
- E Rydych wedi bod yn sâl am gyfnodau achlysurol am fwy na 3 blynedd.
- F Roeddech i ffwrdd o'r gwaith oherwydd anghydfod masnachol a ddechreuodd cyn y diwrnod cyntaf roeddech yn sâl.
- FF Roeddech yn y ddalfa neu roeddech wedi'i garcharu am gyfnod yn y carchar.
Neu rydych yn y ddalfa nawr neu'n cwblhau dedfryd o garchar.
- G Roeddech yn gweithio y tu allan i'r DU ar y diwrnod yr aethoch yn sâl gyntaf ac nid oeddwn yn atebol i dalu cyfraniadau YG Dosbarth 1 cyflogwr ar eich enillion y diwrnod hwnnw.
- NG Nid ydych wedi dechrau gweithio i mi eto.

Bydd **Rhan D** yn egluro'r rhesymau yn fanylach.

Rhan C: Datganiadau meddygol

Anfonwch y ffurflen hon at eich cyflogai gydag unrhyw datganiadau meddygol sydd gennych sy'n cwmpasu cyfnod na allwch dalu SSP ar ei gyfer.

Gelwir *datganiadau meddygol* hefyd yn dystysgrifau meddygol, yn ddatganiadau meddyg neu nodiadau salwch.

Ticiwch un o'r blychau canlynol

Rwyf wedi amgáu datganiadau meddygol sy'n cwmpasu cyfnod na allaf dalu SSP ar ei gyfer.

Nid wyf wedi amgáu datganiadau meddygol.

Rhan CH: Datganiad cyflogwr

Rwyf yn datgan bod y wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

Rwyf yn deall os yw'r cyflogai hwn wedi bod yn cael SSP, mae'n rhaid i mi barhau i dalu SSP hyd at ac yn cynnwys y dyddiad cyn y dyddiad rwyf wedi ei ysgrifennu ar **dudalen 3** o'r ffurflen hon.

Enw'r cyflogwr

Llofnod

Dyddiad

Eich swydd yn y cwmni

Rhif ffôn

Rhif ffacs

Cyfeiriad e-bost

Cyfeiriad

Cod post

Stamp busnes

Rhan D: Y rhesymau pam na allwch gael SSP

A Ni allwch gael SSP os oeddech yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ystod y 12 wythnos diwethaf.

B Ni allwch gael SSP os oeddech yn sâl ar ôl i'ch contract ddod i ben.

C Ni allwch gael SSP ar ôl i'ch cyflogwr ddod â'ch contract i ben. Ond bydd yn rhaid i'ch cyflogwr dalu SSP i chi os gwnaethant ddod â'ch contract cyflogaeth i ben er mwyn osgoi talu SSP ac mai dyna'r unig reswm dros wneud hynny neu dyna'r rheswm pennaf.

CH Ni allwch gael SSP ar ôl i chi gael SSP am 28 wythnos yn olynol. Neu am gyfnodau o salwch a oedd 8 wythnos neu lai ar wahân ac sy'n fwy na chyfanswm o 28 wythnos.

D Ni allwch gael SSP os yw eich enillion wythnosol ar gyfartaledd yn llai na'r Terfyn Enillion Is am yr 8 wythnos cyn i chi fynd yn sâl. Pan fydd eich cyflogwr yn gweithio eich enillion wythnos ar gyfartaledd allan, ni fydd yn tynnu treth na chyfraniadau Yswiriant Gwladol.

Mae gan rai cyflogwyr drefniant arbennig gyda Chyllid a Thollau EM i dalu cyfraniadau YG Dosbarth 1B ar rai o'ch enillion. Gallai hyn olygu na allai eich cyflogwr gyfrif eich enillion i gyd wrth weithio eich enillion ar gyfartaledd allan. Gofynnwch i'ch cyflogwr a gafodd unrhyw ran o'ch enillion ei gynnwys mewn trefniant o'r fath. Ac os nad ydynt wedi gwneud hynny, gofynnwch iddynt ailgyfrifo eich enillion fel petaech wedi bod yn talu cyfraniadau YG Dosbarth 1 ar yr enillion yn y trefniant arbennig.

DD Ni allwch gael SSP:

- yn ystod y 39 wythnos y mae gennych hawl i gael Tâl Mamolaeth Statudol (SMP) gan eich cyflogwr, neu
- yn ystod y 39 wythnos y mae gennych hawl i gael Lwfans Mamolaeth (MA) gan y Ganolfan Byd Gwaith.

Tâl Mamolaeth Statudol (SMP) yw'r arian a delir gan y cyflogwr i ferch er mwyn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i gael ei baban.

Lwfans Mamolaeth (MA) yw'r budd-dal nawdd cymdeithasol y gallech ei gael os na allwch gael SMP.

Os ydych yn disgwyl baban ac nad oes gennych hawl i gael SMP neu MA, ni allwch gael SSP am gyfnod o 18 wythnos.

Os nad ydych eisoes yn cael SSP

Bydd y cyfnod 18 wythnos yn dechrau ar y cynharaf o'r canlynol

- dechrau'r wythnos pan enir eich baban, neu
- dechrau'r wythnos rydych i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â bechiogrwydd, os yw hyn yn y 4 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch baban gael ei eni.

Os ydych eisoes yn cael SSP

Bydd y cyfnod 18 wythnos yn dechrau ar y cynharaf o'r canlynol

- y diwrnod ar ôl i'ch baban gael ei eni, neu
 - y diwrnod ar ôl eich diwrnod cyntaf o'r gwaith oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â bechiogrwydd, os yw hyn yn y 4 wythnos cyn yr wythnos y disgwylir i'ch baban gael ei eni.
-

Rhan D: Y rhesymau pam na allwch gael SSP parhad

- E** Ni allwch gael SSP os yw'r canlynol yn wir yn ystod y 3 blynedd diwethaf
- ni wnaethoch ddychwelyd i'r gwaith am fwy nag 8 wythnos rhwng cyfnodau o salwch, a
 - gwnaeth pob cyfnod o salwch bara o leiaf 4 diwrnod yn olynol.
-
- F** Ni allwch gael SSP os oes anghydfod masnachol yn eich gweithle. Ond gallech gael SSP os
- oeddech eisoes yn cael SSP pan ddechreuodd yr anghydfod, neu
 - gallwch ddangos nad oedd gennych unrhyw ddiddordeb uniongyrchol yn yr anghydfod.
- Ystyr *anghydfod masnachol* yw
- streic
 - cerdded allan
 - cau allan
 - anghydfod arall ynghylch gwaith.
-
- FF** Ni allwch gael SSP a bydd eich SSP yn dod i ben os
- ydych yn y ddalfa, neu
 - cawsoch ddedfryd o garchar.
-
- G** Ni allwch gael SSP os cawsoch eich cyflogi y tu allan i'r Deyrnas Unedig (DU) ar y dyddiad y daethoch yn sâl yn gyntaf oni bai bod eich cyflogwr yn atebol i dalu cyfran y cyflogwr o gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 ar eich rhan, neu y byddai yn gwneud hynny pe byddai eich enillion yn ddigon uchel.
-
- NG** Ni allwch gael SSP nes eich bod yn dechrau gweithio i gyflogwr, hyd yn oed os oes gennych contract cyflogaeth.